Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Trwy e-bost

27 o Dachwedd 2023

Annwyl Gynghorydd,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn eich rôl fel arweinydd awdurdod lleol cyn digwyddiad 'Sesiwn Arweinwyr Newid Hinsawdd' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhelir ddydd Llun 4 Rhagfyr ar y pwnc datgarboneiddio pensiynau.

Mae Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cymryd diddordeb brwd yn y mater hwn, a bu fy rhagflaenydd yn ymgyrchu ar y mater hwn ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i mi, mae angen i sector cyhoeddus Cymru gyflymu ei ymdrechion i ddatgarboneiddio ei bensiynau sector cyhoeddus yn llawn erbyn 2030.

Ymunaf â llawer o randdeiliaid allweddol, Aelodau'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn eu gwaith diflino a'u cefnogaeth i'r fenter hon.

Mae cyfle yma i Gymru unwaith eto arwain y byd ar weithredu hinsawdd drwy gymryd camau cyfannol ar gyfer ein cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Gallai **strategaeth gydgysylltiedig newydd gan y sector cyhoeddus a chronfeydd pensiwn yng Nghymru** arwain at darged newydd arloesol o ddatgarboneiddio cronfeydd pensiwn erbyn 2030 tra'n ceisio rhoi cynllun ar waith lle mae cronfeydd pensiwn yn buddsoddi mewn prosiectau seilwaith cadarnhaol ledled Cymru, megis mewn tai cymdeithasol neu gynlluniau ynni cymunedol, helpu i gefnogi gweithrediad ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i gydnabod y cynnydd da hyd yma i ddatgarboneiddio cronfeydd pensiwn llywodraeth leol Cymru o £1 biliwn yn 2017 i £500 miliwn yn 2021/22. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Gyfeillion y Ddaear a'r Llwyfan yn awgrymu bod buddsoddiadau bellach wedi gostwng hyd yn oed ymhellach, gyda rhai cronfeydd pensiwn bellach yn buddsoddi canrannau dibwys mewn cwmnïau tanwydd ffosil. Mae'r cynnydd hwn yn dyst i uchelgais arweinwyr yng Nghymru i weithredu dros bobl a'r blaned.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod angen i Gymru wneud mwy, a bod angen gwneud hynny o hyd. Mae gan Gymru uchelgais i gyrraedd sero-net yn y sector cyhoeddus erbyn 2030, ac mae angen newid brys a thrawsnewidiol i gyrraedd y nod hwn.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rhybuddiodd Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, yn eu Chweched Adroddiad Asesu, ein bod yn rhedeg allan o amser yn gyflym i atal tymheredd y byd rhag codi mwy na 1.5 gradd Celsius. Bydd parhau i ddatgarboneiddio cronfeydd pensiwn yn mynd â Chymru gam arall ymlaen tuag at ein nod sero net, ac yn gweithio tuag at fod yn Gymru sy'n wirioneddol Gyfrifol yn Fyd-eang.

Mae'r Meysydd Newid Corfforaethol (h.y. cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg a rheoli perfformiad) a amlinellir yng Nghanllawiau Statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddangos yn glir sut y maent yn ystyried y ddeddfwriaeth yn eu cynllunio ariannol, risgiau ac asedau.

Galwaf ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod yr holl wariant o arian cyhoeddus yn cyd-fynd â'r nodau llesiant, y pum ffordd o weithio, a'r meysydd newid corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwysau ar gronfeydd pensiwn i ddatgarboneiddio'n llawn erbyn 2030. Ymunaf â'r Prif Weinidog yn ei sylwadau yn y Senedd ar 21 Tachwedd ar yr angen i annog awdurdodau pensiynau llywodraeth leol i ddatgarboneiddio eu buddsoddiadau pensiwn. Pwysleisiodd bwysigrwydd nid yn unig fod angen cronfeydd pensiwn i ddatgarboneiddio, mae angen iddynt hefyd gael uchelgeisiau cadarnhaol i fuddsoddi yn y dyfodol.

Gobeithiaf felly y gallwch fynychu digwyddiad CLlLC ac ymuno â chyrff cyhoeddus ledled Cymru i gefnogi'r fenter hon.

Diolch ymlaen llaw am eich dyfalbarhad parhaus. Rhowch wybod i'm swyddfa sut y byddwch yn ystyried ac yn gweithredu ar y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

D. Walker

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales